# Dyma gyfres newydd o erthyglau misol yn Y Cymro sy'n 'Dadorchuddio Patagonia'

**Menna, Nans, Nia, Rhian a Rhys yw'r athrawon Cymraeg newydd sy'n gweithio yn Y Wladfa am bron i flwyddyn a deufis. Dyma nhw yn cyflwyno eu hunain.**

## Menna

RYDW i mas ym Mhatagonia ers pedwar mis yn dysgu Cymraeg i blant Gaiman a Dolavon.

Cefais fy magu ar fferm Llwynllwyd Fach, Penparc, Aberteifi, yn blentyn ifanca'r teulu. Wedi gadael yr ysgol mi weithiais fel gweinyddes feithrin drwyddedig, fel nani ger Penybont ar Ogwr; fel gweinyddes feithrin yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth ac fel gweinyddes feithrin yn YGG Pontycymer (fel yr oedd ar y pryd), cyn hyfforddi fel athrawes gynradd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin.


Ers chwe mlynedd bellach rwy'n athrawes yn Ysgol Pontybrenin, Gorseinon, a byddaf yn dychwelyd yno ar ddiwedd fy nghyfnod yma.

Rwyf yn un o'r bobl ffodus hynny sy'n cael gwireddu breuddwyd ers blynyddoedd maith wrth fod yma ym Mhatagonia yn rhan o'r bywyd byrlymus Cymraeg a Chymreig. Dw i hefyd yn gwybod na fyddai hyn yn bosib heb gefnogaeth lwyr fy nheulu, fy ffrindiau a staff a llywodraethwyr Ysgol Pontybrenin.

Dw i wrth fy modd yma. Mae'r plant yn llawn brwdfrydedd am ddysgu'r Gymraeg ac yn chwilio am bob cyfle i ymarfer yr hyn maen nhw wedi ei ddysgu yn y dosbarthiadau.


Yn gymdeithasol, mae digon o gyfleoedd i gymysgu, siarad a chael hwyl yn Gymraeg gyda phobl o bob oed a phob galwedigaeth. Wrth gwrs, mae llawer o bethau yma yn debyg i adre, fel y cyfle i fynd i'r capel neu ymweld â ffermydd ond doeddwn i byth yn disgwyl gorfod dod i'r Wladfa er mwyn dod yn 'whizz' ar ddefnyddio e-bost a'r We.

Gallaf ddweud â'm llaw ar fy nghalon nad wyf wedi hiraethu am Gymru oherwydd y bwrlwm a'r cyffro di-dor sydd yma. Mae'n amhosib rhoi ar ddu a gwyn sut mae'r lle yma ym mhen draw'r byd yn cydio mewn dyn. Mae'r rhamant a'r realiti yn gymysgfa byw, bendigedig ond rhaid dod yma cyn i chi allu deall hynny.



Nans, Rhys a Menna.

Y CYMRO MEDI 30, 2000



Rhian a Nia.

## Nans

NANS Rowlands ydw i yn wreiddiol o fferm Tyddyn Bach, Trawsfynydd, ond yn byw ym Metws Gwerful Goch ger Corwen, ers 16 mlynedd. Rydw i wedi bod yn dysgu ail-iaith i ddisgyblion oed uwchradd ac i oedolion ar hyd fy oes. Treuliais nifer o flynyddoedd ar Lannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint cyn symud i Ysgol y Berwyn, y Bala.

Yno roeddwn yn dysgu Cymraeg i newydd-ddyfodiaid ac i blant lleol o aelwydydd di-Gymraeg. Cyn dod i'r Wladfa rôn i'n dysgu Cymraeg i oedolion yn ardal y Bala a Cherrigydrudion.

Fy niddordebau yw cerddoriaeth o bob math a theithio, wrth gwrs. Rydw i'n aelod o Gôr Merched Edeyrnion, Corwen.

Yn wahanol i lawer o bobl sy'n ymweld â'r Wladfa, nid dod yma i wireddu breuddwyd wnes i. Nid oedd gen i'r un cysylltiad teuluol, hyd y gwyddwn ac rôn i'n diflasu clywed pobl yn rhamantu ynglyn â'r 'Hen Ffordd Gymreig o Fyw' ym mhen draw'r byd. Felly, dyma fentro a dyma fi yn y Gaiman ers Fai 1 eleni yn dysgu Cymraeg fel ail-iaith a chyrsiau gloywi i oedolion yn y Gaiman, Trelew a Dolavon.

Yn groes i'r darlun hen ffasiwn o'r Wladfa sy'n cael ei bortreadu ar y cyfryngau yng Nghymru yn barhaus ac hyd syrffed, nid lle bach tawel, cysglyd yn Nyffryn Camwy mo'r Gaiman. Yn hytrach, bwrlwm o bentref mawr, modern a phrysur.

Mae gwaith a gorffwys yn mynd yn un yma ac rydw i'n mwynhau pob munud. Yn anffodus, does dim digon o oriau mewn diwrnod i allu gwneud popeth a mynd i bob man.

## Nia

NIA Lewis ydw i a dw i fel Rhian yn byw yn Nhy Capel yn Nhrevelin.

Cyn dod yma i fyw wrth droed yr Andes, roeddwn i'n athrawes Ffrangeg a Sbaeneg mewn ysgol uwchradd.

Enillais fy ngradd ym Mhrifysgol Caerdydd, a hynny ar ôl treulio blwyddyn yn Llydaw. Yna, cefais y cyfle i weithio yn Siapan, cyn dychwelyd i ddilyn cwrs ymarfer dysgu ym Mryste.

Dw i wedi dysgu llawer o bethau newydd ers dod yma fel gwenud bara cartref, cyflwyno rhaglen radio, a sut i rafftio mewn dyfroedd dyfnion.

## Rhian

O LANBEDR Pont Steffan rydw i'n dod yn wreiddiol ac yn iaith y Cardis rydw i'n joio mas draw yma yn Y Wladfa.

Cyn mynd i ddysgu Cymraeg ym Mhatagonia bûm yn diwtor Cymraeg i oedolion yn Rhuthun ac yn byw yn Wrecsam. Am y flwyddyn nesaf byddaf yn byw yn Nhrevelin ac yn Esquel wrth droed Yr Andes, lle y gellir mwynhau golygfeydd "ecspectacular" y "Cwm Hyfryd".

Rydw i wrth fy modd yma, yn yfed "mate", yn bwyta (gormod o) deisen hufen, "jam llaeth" a "theisen ddu". Rydw i hefyd yn mwynhau'r gwaith dysgu, yn enwedig gan fod y dysgwyr i gyd yn ymroddedig ac yn frwdfrydig. Ac mae'r ffaith i Sandra de Pol ennill cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn eleni yn tystio'n glir i'r brwdfrydedd hwnnw.

Fy uchelgais mewn bywyd oedd mynd i Batagonia ac mae'r realiti o fod yma yn llawn cystal â'r freuddwyd.

## Rhys

DW I'N wreiddiol o Nefyn ym Mhen Llyn.

Treuliais dair blynedd yn y coleg ger y lli, blwyddyn dramor, blwyddyn eto'n Aber yn astudio a blwyddyn arall ym Mangor i dderbyn hyfforddiant i fod yn athro. Wedyn, bûm yn addysgu plant yn ne Cymru mewn ysgol gynradd.

Bellach, dw i'n byw ers pedwar mis yn Nhrelew, dinas enfawr o bron i 90,000 o bobol ac yn athro ail-iaith.

Dw i'n mwynhau'r profiad yn enfawr ac wedi gwireddu fy mreuddwyd ers yn ifanc iawn i ddod yma. Mae'r profiad yn gwbl wahanol i'r darlun sy eisioes wedi ei gyflwyno i ni ar y cyfryngau Cymraeg. Rhaid i chi ddod yma i'w ddeall ac i'w werthfawrogi achos mae'r Ariannin yn wlad fodern sy'n byrlymu o fywyd i'r eithaf.

Ond peidier neb â phoeni, achos byddwn ni yn dadorchuddio y gwir Batagonia i chi.

Yn fy amser hamdden, dw i'n mwynhau teithio, gweithgareddau awyr agored, yfed Quilmes erbyn hyn (tebyg i Budweiser, ond gwell) a bwyta mwy o gig nag erioed o,r blaen. Ydw i'n hiraethu am Gymru? Nac ydw, achos mae bywyd mor brysur a diddorol o fore gwyn tan nos, ac mae'r tywydd yn andros o braf, hyd yn oed yn y gaeaf.